

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033

Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr
Canllawiau Cynllunio Atodol Diwygiedig

PAPUR TYSTIOLAETH

MANYLEBAU RHEOLI CYNEFINOEDD A MONITRO
LLWYDDIANT

RHAGFYR 2019



Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033

Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr Canllawiau Cynllunio Atodol Diwygiedig

MANYLEBAU RHEOLI CYNEFINOEDD A MONITRO LLWYDDIANT RHAGFYR 2019

1.0 Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno nodau prosiect Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau'r Mynydd Mawr a'r modd y bydd yn rheoli tir a gaffaelwyd o fewn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig Caeau'r Mynydd Mawr.

1.2 Mae'r adroddiad hwn:

- Yn datgan nodau prosiect ACA Caeau'r Mynydd Mawr;
- Yn pennu sut y caiff tir ei gaffael gan y prosiect a'i reoli yn y tymor hir;
- Yn diffinio'r arolwg o gyflwr gwaelodlin cynefinoedd a ddefnyddir i nodi safleoedd addas;
- Yn pennu'r opsiynau rheoli cynefinoedd;
- Yn nodi'r dulliau monitro.

2.0 Nodau'r prosiect

2.1 Er mwyn bod yn unol â *Chynllun Rheoli Craidd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr* (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016) mae'r prosiect yn ceisio sicrhau bod o leiaf 100 hectar o gynefin addas yn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig yn cael ei reoli mewn ffordd a fydd yn cynnal y boblogaeth britheg y gors. Mae gan y prosiect dros bum mlynedd o brofiad o reoli cynefin glaswelltir corsio o fewn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol. Nod y gwaith o reoli'r cynefin yw cynnal, gwella neu adfer safleoedd a allai gynnal brithegion y gors, mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n effeithiol o ran cost.

2.2 Fel arfer, glaswelltir corsio twmpathog o uchder amrywiol yw'r cynefin sy'n addas ar gyfer brithegion y gors. Bydd yn cynnwys tamaid y cythraul, digonedd o laswellt y gweunydd, ac amrywiaeth o blanhigion sy'n blodeuo yn ystod mis Mai a mis Mehefin, gan ddarparu ffynonellau neithdar ar gyfer ieir bach yr haf sydd yn eu llawn dwf. Mae gwrychoedd ac ardaloedd o brysgwydd yn bwysig gan eu bod yn darparu cysgod.

2.3 Gall y prosiect gaffael tir, trwy ei brynu neu ar ffurf cyfraniad mewn da. Fel arall, gall fod trwy gytundeb rheoli gwirfoddol am bum mlynedd gyda thirfeddianwyr sy'n dymuno rheoli eu tir er budd brithegion y gors. Yn gyfnewid am hyn byddent yn derbyn taliad blynyddol fesul hectar, ynghyd â

chymorth i wella'r cynefin. Gall hyn gynnwys torri llystyfiant trwchus, rheoli prysgwydd, ffensio ac ailgyflwyno tir pori.

2.4 Ar ôl gosod y seilwaith ac adfer cynefinoedd, mae'r prosiect yn ceisio rheoli pob safle sydd ag anifeiliaid pori - ceffylau, merlod neu wartheg, sy'n addas ar gyfer yr amodau tir penodol a'r math o borthiant. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n annhebygol y bydd y safle yn opsiwn lliniaru realistig. O bryd i'w gilydd, gellir rheoli safleoedd bach mewn ffyrdd eraill.

2.5 "...the success of the marsh fritillary population cannot be controlled per se but the amount of habitat under appropriate management can, and therefore the level of conservation effort is best focussed in this area". The Two Moors Threatened Butterfly Project – (Plackett, J. a Bourn, N., 2012)

3.0 Asesu cyflwr gwaelodlin tir sydd i'w reoli

3.1 Cynhaliwyd arolwg gwaelodlin o addasrwydd cynefinoedd yn yr ardal dirwedd graidd yn 2009 (Smith, R. a Gander, L., 2009), ac yna astudiaeth bellach yn 2018 (Cyngor Sir Gaerfyrddin, 2019). Defnyddiodd y ddau arolwg y fethodoleg a nodwyd yn *Habitat Quality Mapping for Marsh Fritillary Populations* (Fowles, 2005). Mae'r arolygon hyn yn nodi'r potensial sydd gan safleoedd i ddarparu'r cynefin sydd ei angen ar frithegion y gors. Bydd safleoedd sy'n cynnwys ardaloedd o gynefin addas yn cael blaenoriaeth er mwyn eu rheoli. Cwblheir profforma ar gyfer pob safle, cyn gwneud cynnig i'w brynu neu fynd i gytundeb rheoli, sy'n cynnwys y manylion canlynol:

Cyfeirnod grid y safle
Enw a chyfeiriad y safle
Enw a chyfeiriad y perchennog
Maint y safle (ha)
Ardal o gynefin addas - arolwg gwaelodlin (ha)
Pellter i'r cofnod agosaf o fritheg y gors (m)
Cyflwr y safle (gweler y categorïau isod)

3.2 Swyddog prosiect penodedig sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid parhau â'r pryniant a/neu'r cytundeb rheoli o ddydd i ddydd. Lle bo'n briodol, mae gan y swyddog fynediad at gyngor proffesiynol, yn arbennig ar ffurf adrannau cyllid, cyfreithiol ac eiddo corfforaethol y Cyngor. Rhoddir sylw dyledus hefyd i bartneriaid y prosiect (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru). Dylid cyfeirio at adran 6.0 'Meintioli llwyddiant' - yn arbennig trefniadau llywodraethu.

4.0 Manylebau Rheoli Cynefinoedd

4.1 Mae'r manylebau yn seiliedig ar brofiad a gafwyd o reoli safleoedd ar gyfer y prosiect ers 2013. Pori yn yr haf gyda 0.3 - 0.4 o unedau da byw yr hectar yw'r dwysedd stocio a awgrymir ar gyfer safleoedd briteg y gors, ac mae'n fan cychwyn defnyddiol. Fodd bynnag, mae profiad wedi dangos bod y lefel bori sy'n ofynnol yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar gyflwr y tir a'r llystyfiant, felly ni roddir unrhyw awgrym yn y canllawiau rheoli. Profwyd hefyd bod lefelau isel iawn o bori yn y gaeaf gydag anifeiliaid sy'n llai tebygol o achosi potsio, megis merlod brodorol bach, yn effeithiol ar safleoedd sydd ag amodau daear sychach (Greengrove; pori yn y gaeaf, 7 o weoedd larfâu a ganfuwyd yn 2018) a gall hefyd helpu i reoli brwyn pabwyr.

4.2 Mae'r disgrifiadau canlynol yn cwmpasu'r gwahanol fathau o gynefinoedd y gall y prosiect ystyried eu rheoli, ac ym mhob achos mae'n disgrifio'r rheolaeth sydd ei hangen. Yn anochel, mae safleoedd yn aml yn cynnwys cymysgedd o wahanol fathau o gynefinoedd, ac er mwyn eu rheoli'n llwyddiannus rhaid cydbwysu'r gwahanol anghenion hyn. Pwysleisir bod safleoedd yn ddynamig a bod eu nodweddion cynefin yn newid dros amser, nid ydynt yn statig.

a) Cyflwr y safle: Wedi'i dagu â brwyn

- ✘ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
 - ✘ Pori addas
 - ✓ Ffens cadw stoc
 - ✓ Cyflenwad dŵr
- ✘ Mynediad da ar gyfer stoc
- ✓ Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgrwydd ar lefel dderbyniol

Os yw'r safle yn drwch o frwyn pabwyr, mae'n annhebygol o wella heb wneud gwaith draenio sylweddol, a lladd gwair a chwistrellu chwyn yn barhaus. Bydd y safle yn dueddol o fod angen cael ei bori'n drymach na'r hyn sy'n ddelfrydol, a bydd yn annhebygol o fod yn gynefin addas yn y tymor hir. Fel arfer, ni fydd y prosiect yn ystyried rheoli safleoedd sy'n drwch o frwyn pabwyr, ond gellir cael y math hwn o gynefin ochr yn ochr ag ardaloedd mwy addas.

b) Cyflwr y safle: Yn cael ei orbori

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
 - ✘ Pori addas
 - ✓ Ffens cadw stoc
 - ✓ Cyflenwad dŵr
- ✘ Mynediad da ar gyfer stoc
- ✘ Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgrwydd ar lefel dderbyniol

Tybir bod ffensys digonol yn eu lle, er efallai y bydd angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw arnynt. Gallai creu ardal trin stoc, neu wella mynediad, helpu i wneud y gwaith o symud stoc ar adegau priodol yn haws. Gellir lleihau lefelau pori trwy symud stoc dros y gaeaf, neu leihau niferoedd trwy ddod o hyd i borfa mewn man arall. Efallai y bydd angen rhannu'r safle â ffensys i ganiatáu rheolaeth well ar bori a lleihau pori ar y manau lle ceir gwell cynefin. Gallai cynnwys cynefin llai addas yn y cytundeb rheoli fod yn angenrheidiol er mwyn rhoi tir 'wrth gefn'. Nid yw prysgrwydd yn tueddu i fod yn broblem os yw safle'n cael ei orbori, ond efallai y bydd angen torri'r mieri neu'r manau brwynog ar y dechrau ac yna'n achlysurol yn y dyfodol, gan nad yw'r lefel gywir o bori fel rheol yn ddigon i reoli prysgrwydd yn llwyr.

c) Cyflwr y safle: Addas

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
 - ✓ Pori addas
 - ✓ Ffens cadw stoc
 - ✓ Cyflenwad dŵr

- ✓ Mynediad da ar gyfer stoc
- ✓ Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgrwydd ar lefel dderbyniol

Os yw cynefin mewn cyflwr addas yn gyffredinol ar y cychwyn, a bod pori yn digwydd arno yna ychydig iawn o reolaeth gychwynol neu barhaus fydd ei hangen. Efallai y bydd angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar y ffensys a gall torri ardaloedd o brysgrwydd helpu i wella'r cynefin ymhellach gan nad yw'r lefel gywir o bori byth yn ddigon i reoli prysgrwydd yn llwyr. Mae angen monitro'r lefelau pori er mwyn sicrhau bod y cynefin yn parhau i fod mewn cyflwr da.

d) Cyflwr y safle: Cynefin glaswelltir twmpathog heb damaid y cythraul

- * Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
- ✓ Pori addas
- ✓ Ffens cadw stoc
- ✓ Cyflenwad dŵr
- ✓ Mynediad da ar gyfer stoc
- ✓ Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgrwydd ar lefel dderbyniol

Os yw strwythur y glaswelltir yn addas (gyda thwmpathau o laswellt y gweunydd yn bennaf) ond heb lawer o damaid y cythraul (gallai hyn fod o ganlyniad i fod defaid wedi pori'r safle yn y gorffennol neu fod y safle wedi'i adael gan ganiatáu i haen o laswellt y gweunydd ffurfio) yna gellir ei hau neu blannu plygiau ohono i'w wneud yn fwy helaeth. Byddai angen paratoi'r tir drwy ei dorri a chasglu'r toriadau. Mae rhai ardaloedd lle mae arwyneb y pridd wedi'i grafu'n foel hefyd yn ddefnyddiol. Gellid pori'r safle hefyd i gael gwared ar lystyfiant pellach a chreu rhywfaint o dir potsio a phridd agored. Byddai'r hadau wedyn yn cael eu gwasgaru ar ddiwedd y tymor pori (Medi/Hydref) pryd y byddai'r planhigyn yn gollwng had yn naturiol. Gellid plannu planhigion plwg ar yr adeg hon hefyd, neu'n hwyrach yn y gaeaf. Yna byddai'r safle yn cael ei adael heb ei bori neu ei bori'n ysgafn iawn y flwyddyn ganlynol. Os nad oedd unrhyw damaid y cythraul i'w gael yn y cyffiniau, gellid rhoi cynnig ar ei hadu ond ni fyddai modd prynu'r safle neu ddod i gytundeb rheoli ffurfiol yn ei gylch nes y byddai'n wybyddus a fyddai'r safle'n dod yn addas.

e) Cyflwr y safle: Yn cael ei danbori gyda phrysgrwydd yn ymledu

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
- * Pori addas
- * Ffens cadw stoc
- * Cyflenwad dŵr
- ✓ Mynediad da ar gyfer stoc
- * Uchder y borfa'n gywir
- * Prysgrwydd ar lefel dderbyniol

Efallai bod yna ffensys ond efallai nad ydynt yn ddigonol i gynnwys y nifer cywir o stoc pori, felly gall fod angen gwella'r ffensys neu osod rhai newydd yn eu lle. Efallai y bydd angen gosod ffensys mewnol i rannu unedau pori er mwyn cau'r stoc o fewn ardaloedd sy'n cael eu tanbori. Efallai y bydd angen gosod cafnau dŵr neu adeiladu mynediad i ffynonellau dŵr naturiol yn yr ardaloedd sy'n cael eu tanbori (mae'r rhain yn tueddu i fod bellaf oddi wrth fannau yfed). Mae prysgrwydd yn dueddol o

ymledu ar safleoedd sy'n cael eu tanbori. Efallai y bydd angen clirio ardaloedd o fieri a phrysgwydd helyg neu wern trwy ddefnyddio peiriant torri a malu (*mulcher*) neu eu torri â llif gadwyn a'u symud o ardaloedd glaswelltir. Yna, byddai angen i'r caeau hyn gael eu pori'n drymach na'r hyn a argymhellir fel arfer (cyn belled nad oes cofnodion diweddar o frithegion y gors yn y cae) er mwyn adfer y glaswelltir. Byddai'r lefelau pori wedyn yn gostwng ar ôl 2-3 blynedd ac yn cael eu monitro. Mae'n bosibl y byddai angen rhaglen ladd gwair barhaus i reoli unrhyw brysgwydd sy'n tyfu'n ôl.

f) Cyflwr y safle: Gordyfiant yn cael ei danbori

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
- * Pori addas
- * Ffens cadw stoc
- * Cyflenwad dŵr
- * Mynediad da ar gyfer stoc
- * Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgwydd ar lefel dderbyniol

Mae safleoedd sy'n cael eu tanbori yn aml yn cynnwys ardaloedd helaeth o laswellt y gweunydd, lle mae 'haen' wedi ffurfio dros nifer o flynyddoedd oherwydd diffyg pori. O ganlyniad nid yw'r safleoedd hyn yn ddeniadol i stoc a gallai cynnal cyfres o waith llosgi dan reolaeth fod yn fuddiol iddynt er mwyn cael gwared â'r llystyfiant marw a chaniatáu tyfiant newydd, ac yna eu pori. Os nad yw hyn yn bosibl, argymhellir bod traciau yn cael eu torri yn y glaswelltir i annog stoc i bori'r ardaloedd hyn. Dengys tystiolaeth nad yw llosgi dan reolaeth a gyflawnir yn ofalus yn niweidio unrhyw larfae britheg y gors sydd yno (e.e. ACA Caeau Ffos Fach 2018). Efallai y bydd angen ffens cadw stoc, gwaith mynediad a chyflenwad dŵr i hwyluso pori. Os nad oes stoc pori priodol ar gael ar y safle, efallai y bydd angen dod o hyd i borwr o rywle arall.

g) Cyflwr y safle: Gwlyb yn cael ei danbori

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
- * Pori addas
- * Ffens cadw stoc
- ✓ Cyflenwad dŵr
- * Mynediad da ar gyfer stoc
- * Uchder y borfa'n gywir
- ✓ Prysgwydd ar lefel dderbyniol

Efallai y bydd safle yn cael ei danbori oherwydd nad yw'r ffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw, gan fod cyflwr y ddaear yn ei wneud yn llai hygyrch a deniadol i stoc pori. Mae'n bosibl y bydd y tiffeddiannwr neu berchennog y stoc wedi ffensio'r ardaloedd hyn i ffwrdd er mwyn atal stoc rhag mynd i mewn iddynt oherwydd pryderon am eu diogelwch, neu am ei fod wedi colli anifeiliaid yn y gorffennol. Efallai y bydd angen adfer ffosydd draenio a ffensys i reoli stoc, ac efallai mai dim ond mewn tywydd sych y bydd modd pori'r safle. Efallai y bydd angen gosod ceuffosydd i wella mynediad i'r caeau - mae problemau gyda thir gwlyb yn dueddol o fod yn waeth o amgylch mynedfeydd. Os nad oes stoc pori priodol ar gael ar y safle, efallai y bydd angen dod o hyd i borwr o rywle arall.

h) Cyflwr y safle: Prysgwydd yn ymledu'n ddifrifol

- ✓ Yn cynnwys cynefin addas
- ✓ Cofnodion britheg y gors diweddar o fewn 1km
- * Pori addas
- * Ffens cadw stoc
- * Cyflenwad dŵr
- * Mynediad da ar gyfer stoc
- * Uchder y borfa'n gywir
- * Prysgwydd ar lefel dderbyniol

Efallai y bydd angen rhaglen o reoli prysgwydd dros nifer o flynyddoedd ar safle sydd â chynefinoedd addas ond sydd wedi'i adael neu sydd heb gael ei reoli. Efallai bod yna fieri trwchus a chlystyrau o goed prysgwydd y bydd angen eu torri gan ddefnyddio peiriant torri a malu, neu â llaw gan ddefnyddio torrwr brws neu lif gadwyn, a symud y malurion o'r ardaloedd glaswelltir. Lle bo'n bosibl, dylid trin boncyffion â glyffosad er mwyn eu hatal rhag tyfu'n ôl. Yn aml y rheswm dros adael tir yw diffyg ffensys, felly byddai angen gosod ffens newydd o amgylch perimedr y safle a chael ardal trin stoc neu wneud gwelliannau i fynediad i'r safle. Os nad oes stoc pori priodol ar gael ar y safle, efallai y bydd angen dod o hyd i borwr o rywle arall. Efallai y bydd angen i'r caeau gael eu pori'n drymach na'r hyn a argymhellir fel arfer (cyn belled nad oes yna gofnodion diweddar o frithegion y gors) er mwyn adfer y glaswelltir. Byddai'r lefelau pori wedyn yn gostwng ar ôl 2-3 blynedd ac yn cael eu monitro. Mae'n bosibl y byddai angen rhaglen ladd gwair barhaus i reoli unrhyw brysgwydd sy'n tyfu'n ôl. Efallai y bydd angen gosod cafn dŵr neu fynediad i ffynhonnell ddŵr naturiol.

5.0 Gofynion Monitro

5.1 Gyda'r arolwg gwaelodlin wedi'i gwblhau a chynefin addas wedi cael ei nodi, bydd pob safle sy'n dod i mewn i brosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn cael ei fonitro ar sail dreigl dair blynedd i gofnodi ei gyflwr cynefin o safbwynt parhau i fod yn addas ar gyfer brithegion y gors, ac i lywio penderfyniadau rheoli parhaus. Bydd y gwaith monitro'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau a bydd yn seiliedig ar feini prawf a nodir yn *Common Standards Monitoring of Lowland Purple Moor Grass and Rush Pasture* (Joint Nature Conservation Committee, 2004), a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro cyflwr ACA Caeau'r Mynydd Mawr (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016). Bydd y gwaith monitro yn cofnodi'r priodolddau canlynol a bydd yn cael ei ategu gan argymhellion rheoli:

- Presenoldeb brithegion y gors sydd yn eu llawn dwf a'u gweoedd larfâu
- Presenoldeb tamaid y cythraul
- Presenoldeb glaswellt y gweunydd
- Amrediad uchder y borfa ar draws y cae a gorchudd gwasarn glaswellt
- Ehangder y brwyn pabwyr
- Ehangder y gorchudd prysgwydd
- Cofnodi ac asesu lefelau pori
- Presenoldeb rhywogaethau goresgynnol estron
- Nodyn rheoli; cyflwr y ffiniau, ardaloedd sy'n cael eu gorburi, ardaloedd sy'n cael eu tanburi, potsio, gwrychoedd, coetiroedd a choed aeddfed, cysgod

6.0 Meintioli Llwyddiant

6.1 a) **Y Prosiect:** Bydd arolygon gwaelodlin, yn dilyn y fethodoleg a bennir yn *Habitat Quality Mapping for Marsh Fritillary Populations* (Fowles, 2005) yn pennu'r ardal o gynefin addas sydd mewn safle, a bydd y gwaith rheoli parhaus yn cael ei fonitro yn erbyn y priodoledau a bennir uchod (adran 4.0) i sicrhau bod gofynion cynefin yr iâr fach yr haf yn cael eu bodloni.

6.2 b) **Y CDLI diwygiedig:** Caiff y CDLI Diwygiedig ei fonitro fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol diwygiedig. Mae'r isod yn nodi fframwaith eang ar gyfer monitro. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau fel rhan o'r broses o fabwysiadu'r CDLI Diwygiedig. Dylid nodi bod Systemau Rheoli Gwella Perfformiad Cyngor Sir Gaerfyrddin (PIMS) yn darparu mecanwaith ar gyfer ymgymryd â'r gwaith adrodd hwn.

6.3 c) **Llywodraethu'r Prosiect:** Mae grŵp llywio'r prosiect yn cwrdd yn ôl y gofyn, o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n cyfrannu gwybodaeth a phrofiad, gyda chynrychiolwyr o Adran Gynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin, Gwarchod Glöynnod Byw, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Menter Cwm Gwendraeth Elli.

6.4 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn rhan annatod o lwyddiant y prosiect hyd yma. Yn ogystal â gweithio gydag aelodau o'r grŵp llywio, mae'r prosiect yn gweithio gydag adrannau eraill o Gyngor Sir Gaerfyrddin, PONT (Pori Natur a Threftadaeth), Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwarchod Cacwn, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr a phorwyr lleol, sy'n cyflenwi da byw i bori safleoedd lle nad oes stoc addas ar gael.

7.0 Cyfeiriadau

Fowles, A. P. (2005). *Habitat Quality Mapping for Marsh Fritillary Populations*. Staff Science Report No. 05/5/1.

Joint Nature Conservation Committee. (2004). *Common Standards Monitoring Guidance for Lowland Grassland Habitats*. ISSN 1743-8160 (ar-lein) <http://jncc.defra.gov.uk/page-2233>.

Cyfoeth Naturiol Cymru. (2016). *Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau'r Mynydd Mawr*. Fersiwn 4.

Plackett, J. a Bourn, N. (2012). *The Two Moors Threatened Butterfly Project Progress Report April 2011- March 2012*. Butterfly Conservation Report Number S12-03.